**Cyfarfod Cyffredinol Cyngor Tref Penrhyndeudraeth, 10 Gorffennaf 2025, 7.00 yh, Ystafell Gefn y Neuadd Drefol**

***General Meeting of Cyngor Tref Penrhyndeudraeth* 10 July *2025 at 7.00pm in the back room of the Neuadd Drefol***

Gall aelodau'r cyhoedd fynychu'r cyfarfod yn y Neuadd Drefol neu arsylwi'n rhithol drwy gysylltu â SianCTpenrhyndeudraeth@gmail.com

*Members of the public can join the meeting in the Neuadd Drefol or remotely by contacting*

*SianCTPenrhyndeudraeth@gmail.com*

1. **Croeso/*Welcome* -** Croesawyd pawb/ *Welcome to all.*

2. **Presennol ac Ymddiheuriadau/ *Present and apologies***
   **2.1 Presennol/*Present:*** Gwyn Vaughan Jones (Cadeirydd), Einir Williams (is-gadeirydd), Y cyng. Meryl Roberts, Sian Llywelyn, Nia Jones, Emma Fon Hickman, Ashley Jones, Rob Edwards, Sion Harris, Tony Owen, Rhiannon Davies-Jones (Clerc) a Steven Murray (Clerc Asedau).
   **2.2 Ymddiheuriadau/*Apologies:*** Sarah Roberts.
   **2.3 Aelod o'r cyhoedd/ *Public Participation:*** Naomi Jones o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri/from *Eryri National Park Authority*

3. **Cymeradwyo cofnodion Mehefin / *Approve June minutes* -** Cymeradwywyd gan/*accepted by AJ a MR.*

4. **Datgan buddiant, cysylltiad, diddordeb/ *Declaration of interest, benefits, connection* -** Dim/*None.*

5. **Cyflwyniad gan Naomi Jones (Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol - Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri)** - Diweddariad ar Plas Tan y Bwlch/***An introduction from Naomi Jones (Head of Cultural Heritage - Eryri National Park Authority)*** - *Update on Plas Tan y Bwlch* - Cadarnhaodd NJ fod Plas Tan y Bwlch wedi bod ar fin cael ei werthu, ond ei fod bellach wedi'i dynnu oddi ar y farchnad. Y bwriad yw i'r Parc Cenedlaethol symud i'r adeilad. Ond er mwyn iddynt allu gwneud hynny, mae angen iddynt sicrhau cyllid i gyflogi pensaer i baratoi cais cynllunio i addasu rhai o'r ystafelloedd yn yr adeilad ar gyfer defnydd swyddfa. Mae ganddynt tan ddiwedd Chwefror 2026 i gyflwyno'r cais, ac

yna disgwylir iddynt gael gwybod gan y cyllidwyr erbyn Mai/Mehefin 2026 os ydynt wedi bod yn llwyddiannus neu peidio.

Gofynnodd NJ a oedd gennym unrhyw awgrymiadau ynghylch beth hoffai'r cyhoedd / Cynghorwyr ei weld yn digwydd gyda Phlas Tan y Bwlch neu'r adeilad presennol sy'n cael ei ddefnyddio gan y Parc. Gofynnodd SM a fyddai'r Parc Cenedlaethol yn fodlon gwerthu'r adeilad presennol i CG fel y gellid symud Ysgol Cefn Coch i'r adeilad. Nododd NJ nad dyma'r tro cyntaf i'r awgrym hwn gael ei godi, a'i bod yn gallu pasio'r syniad ymlaen. Awgrymwyd hefyd efallai y gellid symud meddygfa'r pentref i'r adeilad gan fod ei lleoliad presennol yn peri anhawster i'r cyhoedd i'w chyrraedd. Cadarnhaodd pob un o'r Cynghorwyr y byddent yn well ganddynt weld rhywbeth ar gyfer y gymuned yn yr adeilad. Cadarnhaodd NJ y bydd hi'n cysylltu eto gyda CTP i ofyn am ein cefnogaeth mewn perthynas a throsglwyddiad y Parc i Blas Tan y Bwlch.

NJ confirmed that Plas Tan y Bwlch was due to be sold but it was taken off the market. The intention is for the National Park to move into the building. However, for them to be able to do this, they need to secure funding to employ an architect to prepare a planning application to convert some of the rooms in the building for office use. They have until the end of February 2026 to make the application and they should then hear from the funders by May/June 2026 to confirm whether they have been successful or not for the funding. NJ asked if we had any suggestions on what the public/councillors would like to see happen to Plas Tan y Bwlch or the current building being used by the National Park. SM asked if the National Park would be willing to sell their current building to CG so that Ysgol Cefn Coch could be moved to that building. NJ advised that this is not the first time that this has been brought up and that she could pass on this suggestion. It was also suggested that perhaps the doctors surgery could be moved to the building instead given that its current location is proving difficult for the public being able to reach it. All the councillors confirmed that they would rather something for the community to be in the building. NJ confirmed that she will be back in touch with CTP for our support regarding the Park's transfer to Plas Tan y Bwlch.

6. **Adroddiad ariannol / *financial report***

   6.1 Y llyfr arian/ *Cash book*

I FEWN

| | |
|---|---|
| Dref Werdd - rhent Neuadd Drefol | £100.00 |
| M Roberts - rhent Neuadd Drefol | £50.00 |
| Pobl Odd - rhent Neuadd Drefol | £20.00 |
| Scottish Power - refund trydan | £59.35 |

| | |
|---|---|
| Pritchard a Griffiths - agor bedd i 2 | £1836.00 (heb wedi talu eto) |
| Pritchard a Griffiths - llwch | £262.00 (heb wedi talu eto) |

ALLAN

| | |
|---|---|
| BT - internet | £36.23 |
| Alan Williams - gwaith parc | £285.00 |
| Ffon Clerc | £11.50 |
| NEST - pensiwn | £59.71 |
| Dwr Cymru - dwr swyddfa | £98.09 |
| Rhiannon D-J - Cyflog Clerc | £1748.02 |
| Steven Murray - Cyflog | £1248.70 |
| Carwyn Dobson Jones - torri gwair | £1740.00 |
| PAYE & NIC | £361.96 |
| Un Llais Cymru - hyfforddiant | £42.00 |
| Scottish Power - (bil lectric o 27/05- 30/06) | £254.35 |
| British gas - gas swyddfa | £47.81 |
| Rock Engineering - gwaith parc | £630.00 |
| Amazon - adnoddau swyddfa | £52.46 |
| Pritchard a Griffiths - ail agor bedd | £570.00 |
| Pritchard a Griffiths - claddu llwch | £110.00 |
| Scottish Power - trydan Minffordd | £116.03 |
| Rawson Digital - printer | £18.43 |

<u>Cyfanswm ar ol (tan diwedd mis Awst) = £14,715.56</u>

6.2 Ffurflen flynyddol 2024-2025/ *Annual Return 2024-2025* - Cadarnhaodd pawb eu bod wedi darllen adroddiad mewnol CG a'r ffurflen flynyddol. Cafodd y ffurflen ei phasio gan y Cyngor/ *All confirmed that they had read the internal report from CG and the yearly return. The return was passed by the Council.*

**7. Eitemiau sefydlog/*Regular items***

7.1 Mynwent Minffordd *Cemetery* - Cadarnhaodd RDJ fod angen torri gwair estyniad y fynwent. Roedd hi wedi cael dyfynbris gan ein contractwr presennol am pris rhwng £600-£700. Roedd SM hefyd wedi cysylltu a contractwr arall a oedd wedi rhoi dyfynbris o £400. Gofynnodd RDJ i'r Cynghorwyr os oeddent eisiau iddi gael dyfynbris ychwannegol. Penderfynodd y Cynghorwyr beidio a gwneud hyn, a chadarnhasant eu bod yn dymuno derbyn y dyfynbris o £400. / *RDJ confirmed that the cemetery extension needed to be mowed. She had obtained a quote from our current contractor for between £600-£700. SM had also contacted another contractor who had quoted us £400. RDJ asked the Councillors if they wanted her to*

*obtain a further quote. Councillors advised not and confirmed that they wished to accept the £400 quote.*

7.2 Parc Mileniwm/ *Millennium Park* - Cadarnhaodd RDJ ei bod wedi derbyn pedwar dyfynbris gan gontractwyr ar gyfer y ffensio yn y parc, ond bod un dyfynbris yn dal i fod yn yr arfaeth. Gofynnodd RDJ a fyddai'r Cynghorwyr yn fodlon pleidleisio dros y tri gorau yn y cyfarfod nesaf. Cadarnhaodd y Cynghorwyr eu bod yn fodlon gwneud hyn.

Nododd SM fod problem sbwriel yn parhau yn y parc. Rydym hefyd wedi derbyn gohebiaeth gan yr heddlu ynghylch y difrod i'r wal. Mae SM wedi gofyn i siarad gyda'r swyddog dros y ffon i gael rhagor o wybodaeth, a bydd yn darparu diweddariad pellach unwaith y bydd ganddo fwy o wybodaeth.Cadarnhaodd AJ ei fod wedi adrodd y broblem gyda'r ffens i BT eto yn Parc y Mileniwm. Diolchodd y Cynghorwyr i AJ am wneud hyn.

Cadarnhaodd MR fod Ysgol Cefn Coch wedi bod mewn cysylltiad i ofyn am ganiatad i ddefnyddio rhan o'r parc i sefydlu ysgol goedwig. Dangoswyd llun o'r ardal arfaethedig i'r Cynghorwyr. Gofynnodd MR a fyddai'r Cynghorwyr yn fodlon cytuno i hyn. Cynghorodd RDJ y byddai angen llunio Les, a bod angen adolygu'n yswiriant. Cadarnhaodd y Cynghorwyr, yn amodol ar hyn, nad oedd ganddynt wrthwynebiad.

*RDJ confirmed that she had received four quotes from contractors for the fencing but that one was currently awaited. RDJ asked if the Councillors would be willing to vote for the top 3 in the next meeting. Councillors confirmed that they would be happy to do this. AJ confirmed that he had reported the fence to BT again in the millenium park. The Councillors thanked AJ for doing this.*

*SM mentioned that there's still a rubbish issue at the park. We have also received communication from the police regarding the damage to the wall, SM has asked to speak with the officer over the telephone for further information and he will update us further once he knows more.*

*MR confirmed that Ysgol Cefn Coch had been in touch to ask permission to use part of the park to set up a forest school. A picture of the proposed area was shown to the Councillors. MR asked if the Councillors would be willing to agree to this. RDJ advised that a Lease would need to be put in place and our insurance would need to be reviewed. The Councillors confirmed that subject to this, they had no objections.*

7.3 Cae Cookes - Cadarnhaodd MR fod Un Llais Cymru wedi ymweld a ni yn gynharach yn yr wythnos i archwilio'r safleoedd a ddewiswyd ar gyfer astudiaeth beilot. O

ystyried hyn, nododd fod angen inni ddechrau gwaith ar clirio Cae Cookes er mwyn paratoi ar gyfer y gwaith sydd ei angen ar gyfer y rhandiroedd. Nododd SLL hefyd fod Leian Roberts wedi bod mewn cysylltiad i ofyn a ellid creu gardd synhwyraidd ar safle'r rhandiroedd ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol. Cadarnhaodd y Cynghorwyr eu bod yn cefnogi'r syniad yma/ *MR confirmed that One Voice Wales had visited us earlier in the week to inspect the sites we have chosen for a pilot study. With this in mind, she stated that we needed to start work on clearing Cae Cookes in readiness for the work needed to be undertaken for the allotments. SLL also mentioned that Leian Roberts had been in touch to ask if a sensory garden could be created on the allotment site for children with additional needs. The Councillors confirmed that they supported this proposal.*

7.4 Cae Chwarau Minffordd *Playground* - Soniodd EFH fod tri trelar wedi cael eu gadael yn yr ardal barcio. Cadarnhaodd MR y gallwn adael nodyn ar y trelar i ofyn iddynt gael eu tynnu. Gofynnodd SM pryd mae TO ar gael nesaf i lenwi'r tyllau yn yr ardal barcio. Cadarnhaodd TO ei fod ar gael y mis nesaf i helpu gyda hyn/ *EFH mentioned that three trailers ha been left in the parking area. MR confirmed that we can leave a note on the trailers to ask that they are removed. SM asked when TO is available next to fill in the potholes in the parking area. TO confirmed that he is available next month to assist with this.*

7.5 Maes y Parc - Cadarnhaodd SH fod y gwaith ar y cae pel-droed wedi'i gwblhau. Maent i gyd yn hapus iawn gyda safon y gwaith. Maent yn gobeithio gwneud yr ochr arall y flwyddyn nesaf. Cadarnhaodd RDJ ei bod wedi gwirio'r gweithrhed ymddiriedolaeth a bod modd rhyddhau'r arian i'r clwb pel-droed, ond ein bod yn aros am fanylion mewngofnodi gan HSBC. / *SH confirmed that the work on the football pitch has been completed. They are all very happy with the quality of the work. They hope to do the other side next year. RDJ confirmed that she has checked the Trust Deed and that the money can be released to the football club but that we are awaiting log-in details from HSBC.*

7.6 Ffyrdd a parcio / parking and road - Mae'r gwaith ar y ffordd fawr yn parhau. Bydd yr "embargo" yn dechrau ar y 18eg o Orffennaf 2025, felly ni ellir gwneud rhagor o waith ar y ffordd nes bydd gwyliau'r haf wedi dod i ben/ *The work to the main road is still ongoing. The embargo will start from the 18th July 2025 so no further work can be carried out on the road until after the summer holidays have come to an end.*

**8. Gohebiaeth/ Correspondence**

8.1 Grwp Cyswllt Cymunedol: 15 Gorffennaf 2025/ *Community Liaison Group: 15 July 2025* - GVJ a MR fydd yn mynychu hyn ddydd Mawrth. Bydd RDJ yn anfon e-bost at y

Grid Cenedlaethol i gadarnhau eu presenoldeb/ *GVJ and MR will be attending this on Tuesday. RDJ will email the National Grid to confirm their attendance.*

8.2 Nodau Datblygu Ymarfer Diweddariedig/*Updated Practice Development* - Er gwybodaeth/*FYI.*

8.3 Fforwm Cymunedau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri 08.05.25/ *Eryri National Park Authority Community Forum 08.05.25* - Er gwybodaeth/ *FYI.*

8.4 Mehefin 2025 Gwybodaeth Argyfwng Costau Byw/ *June 2025 Cost of Living Crisis* - Er gwybodaeth/ *FYI.*

8.5 Rhaglen Waith, Mis Gorffennaf 2025 - Cyngor Gwynedd/ *Work Schedule, July 2025 - Cyngor Gwynedd* - Er gwybodaeth/ *FYI.*

8.6 Cyfansoddiad a Fframwaith Llywodraethiant Un Llais Cymru/ *One Voice Wales Constitution and Governance Framework* - Cadarnhaodd EW ac AJ y byddant yn mynychu'r cyfarfod/ *EW and AJ confirmed that they will attend the meeting.*

8.7 Nodyn Datblygu Ymarfer - Ysgrifennu Adroddiadau/ *Practice Development Note* - Er gwybodaeth/ *FYI.*

8.8 Cefnogi Grwpiau Cymunedol Gwynedd - Prosiect Perthyn/ *Supporting Community Groups in Gwynedd - Perthyn Project* - Awgrymodd GVJ y gallai hyn fod o ddiddordeb i SLL/ *GVJ suggested that this might be of interest to SLL.*

8.9 Cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionydd/ *Meirionydd Area Committee Meeting* - Er gwybodaeth. Croeso i'r Cynghorwyr ymuno a'r cyfarfod ddydd Mercher gan ei fod yn cael ei gynnal yn y Neuadd Drefol. Bydd MR a GVJ yn bresennol, ac mae AJ wedi cadarnhau y gall fynychu/*FYI. The Councillors are welcome to join the meeting on Wednesday as it is being held at the Neuadd Drefol. MR and GVJ will be attending, AJ confirmed that he could attend.*

8.10 Wythnos Natur Cymru 2025/ *Wales Nature Week 2025* - Er gwybodaeth/ *FYI.*

8.11 Arolwg - Cymorth i ddeall teithio llesol yng Nghymru wledig/ Survey - *Assistance to understand active travel in rural Wales* - Gofynnwyd i'r Cynghorwyr lenwi'r arolwg/ *The Councillors were asked to complete the survey.*

**9. Materion Cynllunio/*Planning Matters*** - Dim/*None.*

**10. Adroddiadau/*Reports***

10.1 Adroddiad Misol Cynghorydd Sir Meryl Roberts *County Councillor Monthly Report* - Cadarnhaodd MR ei bod wedi mynychu'r cyfarfod yn ymwneud a Gorsaf Bwer Trawsfynydd gyda Rob. Cafwyd diweddariad ar y prosiectau newydd yn yr orsaf bwer. Hysbysodd MR y Cynghorwyr hefyd fod yr orsaf drenau fach yn Nhanybwlch i'w

hadnewyddu. Bydd MR yn bresennol ym Mharc y Mileniwm ddydd Llun i wneud gwaith yn y parc. Bydd Heddwas Cymunedol (PCSO) ac ym mlwyddyn 5 o Ysgol Cefn Coch hefyd yn bresennol i gymryd rhan yn y gwaith/ *MR confirmed that she had attended a meeting regarding the Trawsfynydd Power Station with Rob. An update was given on the new projects at the power station. MR also informed the Councillors that the small train station at Tan-y-Bwlch is due to be renovated. MR will be at the Millennium Park on Monday to carry out work in the park. A Police Community Support Officer (PCSO) and Year 5 pupils from Ysgol Cefn Coch will also be present to take part in the work.*

**11. Eitemau i'w trafod/ *Items for Discussion***

11.1. Ffensio yn y lle chwarae, Penrhyndeudraeth/ *Fencing in the Play Area, Penrhyndeudraeth* - Fel yr uchod/ *As above.*

11.2 Ymddygiad gwrth-gymdeithasol yn y gymuned/*Anti-social behaviour in the community* - Fel yr uchod/ *As above.*

**Dyddiad cyfarfod nesaf 11eg o Fedi 2025 7yh yn y Neuadd Drefol/ Date and location of next meeting 11th September 2025 7pm in the Neuadd Drefol**